

AROLYGIAETH GOFAL IECHYD CYMRU

Gwneud Gwahaniaeth

Cynllun Strategol
2018 - 2021

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oeddiad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@llyw.cymru
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynllun Strategol 2018 - 2021

Gwneud Gwahaniaeth

Cynnwys

4	Crynodeb
6	Rhagair
7	Cyflwyniad
9	Cyd-destun
10	Ein gwaith
11	Ein blaenoriaethau
15	Yr hyn y mae'r strategaeth hon yn ei olygu

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da.

Ein gwerthoedd

Rydym yn gwneud cleifion yn ganolog i'r hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig golwg annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

Crynodeb o'n Strategaeth

Ein nod yw:

Annog gwelliant i ofal iechyd trwy wneud y gwaith iawn ar yr adeg iawn yn y lle iawn, gan sicrhau bod yr hyn yr ydym yn ei wneud yn cael ei gyfathrebu'n dda ac yn gwneud gwahaniaeth

Byddwn yn canolbwyntio ar bedair prif flaenoriaeth:

1. Sicrhau bod effaith ein gwaith mor fawr â phosibl i gynorthwyo gwelliant i ofal iechyd
2. Cymryd camau pan na fydd safonau yn cael eu bodloni
3. Bod yn fwy amlwg
4. Datblygu ein pobl a'n sefydliad i wneud y gwaith gorau posibl


Byddwn yn gwybod ein bod wedi bodloni ein nod pan:

1. Fydd gwasanaethau yn gwella'r gofal y maent yn ei ddarparu i gleifion o ganlyniad i'n gwaith
2. Bydd pobl yn hyderus y byddwn yn nodi pan nad yw safonau yn cael eu bodloni ac y byddwn yn cymryd camau priodol
3. Bydd gan bobl fwy o wybodaeth am ein gwaith
4. Byddwn yn darparu ein rhaglenni gwaith yn effeithiol, gan wneud y defnydd gorau o'n hadnoddau

AROLYGIAETH GOFAL IECHYD CYMRU

NOD

I annog gwelliant i ofal iechyd trwy wneud y gwaith iawn ar yr adeg iawn yn y lle iawn, gan sicrhau bod yr hyn yr ydym yn ei wneud yn cael ei gyfathrebu'n dda ac yn gwneud gwahaniaeth



BLAENORIAETHAU STRATEGOL

1. Sicrhau bod effaith ein gwaith mor fawr â phosibl i gynorthwyo gwelliant i ofal iechyd
2. Cymryd camau pan na fydd safonau yn cael eu bodloni
3. Bod yn fwy amlwg
4. Datblygu ein pobl a'n sefydliad i wneud y gwaith gorau posibl



Rhagair

Mae'r cynllun strategol hwn yn cyflwyno ein gweledigaeth ar gyfer y tair blynedd nesaf: ein blaenoriaethau strategol a'r hyn y byddwn yn ei wneud i wireddu ein huchelgais.

Mae'r nod ar gyfer gofal yng Nghymru yn eglur: gwella iechyd a llesiant i unigolion, teuluoedd a chymunedau. Yr amcan yw sicrhau ffyniant i bawb, gan gymryd camau sylweddol i newid y dull o drin i atal. Mae gwasanaethau gofal iechyd yn wynebu galw cynyddol a demograffeg newidiol. Mae llwyddiant y GIG a'i bartneriaid yn golygu bod mwy o bobl yn byw'n hwy a bod mwy o bobl yn byw gydag anableddau sylweddol.

Cyflwynodd yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru¹ weledigaeth eglur ar gyfer gofal yn y dyfodol:

"Dylid trefnu gofal o amgylch yr unigolyn a theulu'r unigolyn, mor agos â phosibl at y cartref, ac y dylai fod yn ataliol, yn hygyrch ac o ansawdd uchel. Dylai gael ei alluogi'n rhannol gan dechnoleg ddigidol a dylai ddarparu'r hyn sy'n bwysig iawn i ddefnyddwyr a'r cyhoedd. Dylai gofal a chymorth fod yn ddi-dor, heb unrhyw rwystrau artiffisial rhwng iechyd corfforol ac iechyd meddwl, gofal sylfaenol a gofal eilaidd, ac iechyd a gofal cymdeithasol."

Yr her i AGIC yw sicrhau bod ein holl weithgarwch yn gweithio tuag at y weledigaeth hon. Mae hyn yn golygu sicrhau'r cydbwysedd gorau posibl rhwng rhoi sicrwydd trwy wirio ansawdd gofal iechyd, cynorthwyo gwelliant ac arloesedd drwy'r ffordd yr ydym yn siapio ein gwaith ac yn defnyddio ein canfyddiadau, a gweithio gyda'n partneriaid i groesi ffiniau iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r cynllun strategol hwn yn sefydlu cyfeiriad, ond nid yw'n gwbl anhyblyg. Bydd angen i ni ymateb i amgylchiadau sy'n newid a bod yn hyblyg yn y ffordd yr ydym yn cyflawni ein blaenoriaethau. Mae AGIC yn sefydliad bach â swyddogaeth fawr i'w chyflawni. Mae'n rhaid i ni dargedu ein hadnoddau lle gallant sicrhau'r effaith fwyaf posibl i gleifion a'r cyhoedd. Mae hyn yn golygu bod angen i ni wneud gwell defnydd o'r holl dystiolaeth a gwybodaeth sydd ar gael i ni, yn hytrach na cheisio ymweld â mwy o leoliadau yn amlach. Bydd ein cynlluniau busnes blynyddol yn ychwanegu mwy o fanylion am ein gweithgareddau a bydd ein hadroddiadau blynyddol yn disgrifio'r cynnydd yr ydym yn ei wneud o ran bodloni ein nodau.

Byddwn yn ymateb i'r heriau o'n blaenau gyda phenderfyniad ac angerdd ac rydym yn llawn cyffro am y cyfleoedd y bydd y tair blynedd nesaf yn eu cynnig.

Dr Kate Chamberlain, Prif Weithredwr

¹ Yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 'Chwyldro o'r Tu Mewn: Trawsnewid Iechyd a Gofal yng Nghymru'. Hussey et al., Ionawr 2018

Byddwn yn ymateb i'r heriau o'n blaenau gyda phenderfyniad ac angerdd ac rydym yn llawn cyffro am y cyfleoedd y bydd y tair blynedd nesaf yn eu cynnig.

Cyflwyniad

Amlinellodd ein cynllun strategol diwethaf ein hymrwymiad i fabwysiadu dull mwy creadigol o wneud ein gwaith, gan gynnwys defnydd cynyddol o adolygiadau thematig, i gynyddu cwmpas ein gwaith a'i effaith. Rydym yn falch gyda'r cynnydd yr ydym wedi ei wneud. Rydym wedi darparu adolygiadau thematig cenedlaethol ar wasanaethau offthalmoleg ac anabledd dysgu, iechyd meddwl cymunedol a rhyddhau cleifion, ac rydym wedi adrodd yn flynyddol ar themâu sy'n deillio o'n gwaith arolygu mewn ysbytai ac ar feddygon teulu, deintyddion a laserau. Fodd bynnag, nid yw aros yr un fath yn opsiwn.

Mae gan gleifion a'r cyhoedd, yn gwbl ddealladwy, ddisgwyliadau uchel o wasanaethau cyhoeddus. Mae'n rhaid i ni wneud popeth y gallwn i reoli a bodloni'r disgwyliadau hynny.

Mae angen i ni ymateb i'r her gyfunol a gyflwynir gan yr Adolygiad Seneddol o ofal a drefnir o amgylch yr unigolyn a'i deulu mor agos at y cartref â phosibl. I ni, mae hynny'n golygu meddwl am sut y mae angen i ni addasu i'r ffordd yr ydym yn gwneud ein gwaith.

Mae'r pwysau ar gyllid cyhoeddus yn annhebygol o ddiflannu. Mae'n rhaid i ni sicrhau cymaint o effaith â phosibl i gleifion gyda'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael i ni.

Mae angen i ni ymateb i'r heriau hyn a gwneud yn siŵr ein bod ni yn y lle iawn ar yr adeg iawn i sicrhau'r canlyniadau gorau i gleifion. Mae hyn yn golygu:

Partneriaeth

- Datblygu golwg fwy integredig ar wasanaethau cyhoeddus gyda'n harolygiaethau partner
- Cynnwys cleifion a'r cyhoedd mwy yn ein gwaith
- Gweithio gyda sefydliadau eraill sydd â chyfrifoldeb am wella gofal

Llwybrau

- Gwneud y defnydd gorau posibl o'r holl wybodaeth yn y system i dargedu ein gwaith mewn ffordd effeithiol
- Gwneud yn siŵr fod ein systemau, ein prosesau a'n gweithlu yn ein galluogi i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i wneud pethau'n wahanol

Atal

- Rhoi sylw cynyddol i wasanaethau cymunedol ac ataliol

Mae'r blaenoriaethau yn y cynllun strategol hwn yn adlewyrchu ein hymrwymiad i wella ein gwaith a darparu mwy i bobl Cymru.

AROLYGIAETH GOFAL IECHYD CYMRU

BLE RYDYM YN FFITIO

Mae'r saith o nodau llesiant yn Cymru

Cymru
Lewyrchus

Cymru
Gydnerth

Cymru
Iachach

Cymru
sy'n Fwy
Cyfartal

Cymru o
gymunedau
cydlynus

Cymru â
diwylliant
bywiog lle
mae'r Gymraeg
yn ffynnu

Cymru sy'n
gyfrifol ar lefel
fyd-eang



Ffyniant i Bawb - y strategaeth genedlaethol

Ffyniannus
a Diogel

Lach ac
Egniïol

Uchelgeisiol
ac yn Dysgu

Unedig a
Chysylltiedig

Nod

I annog gwelliant i ofal iechyd trwy wneud y gwaith iawn ar yr adeg iawn yn y lle iawn, gan sicrhau bod yr hyn yr ydym yn ei wneud yn cael ei gyfathrebu'n dda ac yn gwneud gwahaniaeth

Ein Blaenoriaeth Strategol

1. Sicrhau bod effaith ein gwaith mor fawr â phosibl i gynorthwyo gwelliant i ofal iechyd
2. Cymryd camau pan na fydd safonau yn cael eu bodloni
3. Bod yn fwy amlwg
4. Datblygu ein pobl a'n sefydliad i wneud y gwaith gorau posibl

Rhoddodd cyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ym mis Ebrill 2016 y mandad i gyrrff cyhoeddus gynllunio ar gyfer yr hirdymor, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a gyda'i gilydd, ceisio atal problemau, a mabwysiadu dull mwy cydgysylltiedig. Mae strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru, Ffyniant i Bawb, yn disgrifio'r ffordd y gellir gwireddu potensial llawn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – trwy integreiddio a chydweithredu rhwng gwasanaethau i gefnogi ymyrraeth gynnar a dull sy'n canolbwyntio ar bobl.

Un o'r themâu allweddol ar gyfer y strategaeth genedlaethol yw 'lach ac Egnïol', ac mae iechyd meddwl yn un o'r meysydd o flaenoriaeth ar gyfer sylw parhaus yn y blynyddoedd nesaf. Bydd strategaeth AGIC yn ein galluogi i chwarae rhan lawn o ran helpu i ddarparu amcanion Ffyniant i Bawb ac felly chwarae ein rhan yn y gwaith o sicrhau llesiant cenedlaethau'r dyfodol.

Ein hadnoddau

Yn unol â sefydliadau sector cyhoeddus eraill, byddwn yn dioddef pwysau cyllidebol yn y blynyddoedd nesaf, felly bydd angen i ni wneud penderfyniadau anodd i sicrhau ein bod yn canolbwyntio ein hadnoddau ar y meysydd lle gallant gyflawni fwyaf. Hefyd, mae'n rhaid i ni fod mor effeithlon ag y gallwn fod, a dyna pam mae un o'n pedair blaenoriaeth strategol yn canolbwyntio ar ddatblygu ein sefydliad.

Mae gennym gyllideb o tua £3.5 miliwn ar hyn o bryd. Disgwylir i hyn leihau tua £82,000 yn ystod y flwyddyn nesaf a £189,000 arall yn 2019/20.

Mae ymrwymiad ein tîm staff bach a'n panel o adolygwyr cymheiriaid a lleyg arbenigol yn hanfodol i ddarparu ein gwaith. Mae ein hadolygwyr cymheiriaid yn cynnwys nyrsys arbenigol a chyffredinol, meddygon teulu, deintyddion, anesthetiddion, a rheolwyr meddygfeydd teulu. Hefyd, mae gennym arbenigwyr yng ngweinyddiaeth y Ddeddf Iechyd Meddwl a phanel o seiciatryddion sy'n darparu ein gwasanaeth Meddyg a Benodir i Roi Ail Farn.

Bydd ein pobl yn hollbwysig i'n helpu i adeiladu ar y sylfeini yr ydym wedi eu rhoi ar waith a'n helpu i ddarparu mwy i bobl Cymru gyda llai o adnoddau.

Ein deddfwriaeth

Mae AGIC yn cyflawni swyddogaethau cyfreithiol Gweinidogion Cymru o dan amrywiaeth o wahanol ddarnau o ddeddfwriaeth.

Roedd y Papur Gwyn, *Gwasanaethau sy'n Addas i'r Dyfodol: Ansawdd a Llywodraethiant ym Maes Iechyd a Gofal yng Nghymru* (2017), yn cynnwys cynigion a fydd yn cynorthwyo i ddatrys yr heriau yr ydym yn eu hwynebu wrth weithio o fewn ein fframwaith deddfwriaethol cyfredol. Rydym yn croesawu'r cynigion hyn ac rydym wedi ymrwymo i weithio gyda Llywodraeth Cymru ar ddatblygiadau pellach o ran polisi a deddfwriaeth sydd wedi'u hanelu at alinio safonau a gwaith arolygu a rheoleiddio a'u diogelu at y dyfodol ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol. Ar yr un pryd, rydym wedi ymrwymo i ddefnyddio ein pwerau presennol hyd eithaf ein gallu, a gweithio'n agos gyda phartneriaid allweddol megis Arolygiaeth Gofal Cymru.

Rydym yn gwirio bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da. I wneud hyn, rydym yn gwirio bod gwasanaethau yn darparu gofal diogel ac effeithiol sy'n bodloni safonau cydnabyddedig.

Rydym yn rheoleiddio ac yn arolygu gofal iechyd annibynnol ac rydym yn arolygu'r GIG yng Nghymru. Mae gofal iechyd annibynnol yn cynnwys amrywiaeth eang o ddarparwyr o ysbytai preifat llawn i salonau harddwch sy'n defnyddio laserau. Mae cwmpas ein gwaith yn y GIG yn amrywio o ddeintyddiaeth ac ymarfer cyffredinol i ysbytai.

Rydym yn gwneud y claf yn ganolog i'r hyn yr ydym yn ei wneud, ac rydym yn gwneud yn siŵr bod ein gwaith yn hybu ac yn diogelu cydraddoldeb a hawliau dynol i bawb. Mae ein hymrwymiad i gydraddoldeb a hawliau dynol yn ganolog i sut yr ydym yn gweithio fel sefydliad. Rydym yn gwirio'r canlynol yn ein holl waith arolygu ac adolygu:

- Bod pobl yn cael eu trin gydag urddas, parch, tosturi a charedigrwydd
- Bod anghenion unigolion yn cael sylw beth bynnag fo'u hunaniaeth a'u cefndir
- Bod hawliau dynol pobl yn cael eu sicrhau

Mae gennym gyfrifoldeb penodol i ystyried hawliau pobl agored i niwed, fel y rheini sy'n derbyn gofal o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl neu Drefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid y Ddeddf Galluedd Meddyliol. Mae ein cyfrifoldebau o ran iechyd meddwl yn cwmpasu'r GIG a'r sector annibynnol.

Mae AGIC hefyd yn gweithio gyda chyrff eraill i archwilio gofal iechyd mewn lleoliadau eraill, fel adolygiadau clinigol o farwolaethau mewn carchardai a gynhelir gyda'r Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth, ac adolygiadau o Dimau Troseddau Ieuentid dan arweiniad Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi.

Modelau gofal newydd

Mae gwasanaethau gofal iechyd yn wynebu galw cynyddol a demograffeg newidiol. Mae llwyddiant y GIG a'i bartneriaid yn golygu bod mwy o bobl yn byw'n hwy a bod mwy o bobl yn byw gydag anableddau sylweddol. Rhagwelir y bydd nifer y bobl 65 oed a hŷn yn cynyddu 44% rhwng 2014 a 2039.

Argymhellodd yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol "fodelau gofal di-dor newydd a dewr", gan nodi bod angen i Gymru "adeiladu system wahanol o wasanaethau mwy effeithiol yn y gymuned, a chefnogi hyn trwy symud adnoddau tuag at gymorth cynnar i bobl yn eu cartrefi eu hunain, a mesurau iechyd a llesiant mwy rhagweithiol ar gyfer y boblogaeth".

Un pwyslais i AGIC yn y blynyddoedd i ddod fydd datblygu dulliau arolygu newydd i arolygu modelau gofal newydd mewn ffordd effeithiol ac effeithlon.



AROLYGIAETH GOFAL IECHYD CYMRU

RYDYM YN RHAN O SYSTEM

CYRFF GORUCHWYLIO
CYMRU

Arolygiaeth Gofal
Iechyd Cymru

CYRFF
GORUCHWYLIO'R DU



POBL SY'N DEFNYDDIO'R
GWASANAETHAU

CYRFF GWELLA

1. Sicrhau bod effaith ein gwaith mor fawr â phosibl i gynorthwyo gwelliant i ofal iechyd

Ein nod yw annog gwelliant mewn gofal iechyd trwy wneud y gwaith iawn ar yr adeg iawn yn y lle iawn, gan sicrhau bod yr hyn yr ydym yn ei wneud yn cael ei gyfathrebu'n dda ac yn gwneud gwahaniaeth. I fodloni ein nod, a chael yr effaith fwyaf, mae angen i ni weithio gydag eraill yn y system iechyd a gofal ehangach.

Y camau y byddwn yn eu cymryd:

1. Gwella ein dull o ddadansoddi, defnyddio a rhannu gwybodaeth.

Byddwn yn:

- Gweithio gyda sefydliadau eraill i wneud y defnydd gorau o ddata a gwybodaeth
- Datblygu ein dulliau o gasglu a dadansoddi gwybodaeth
- Canolbwyntio ein harolygiadau ar y meysydd o berygl mwyaf i ddiogelwch a llesiant cleifion
- Datblygu a llunio adroddiadau ymchwil annibynnol

2. Gweithio'n agos gydag arolygiaethau eraill, yn enwedig Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

Byddwn yn:

- Datblygu methodolegau a fframweithiau ymhellach ar gyfer arolygiadau ac adolygiadau ar y cyd ag AGC, gyda phwyslais ar y weledigaeth a amlinellir yn yr Adolygiad Seneddol

- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod deddfwriaeth a swyddogaethau AGIC wedi eu halinio gydag AGC yn ôl yr angen, i wneud gweithio ar y cyd yn haws ac yn fwy effeithiol
- Parhau i weithio gydag AGC, Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru trwy Arolygu Cymru i ystyried sut y gall ein gwaith cyfunol ychwanegu'r mwyaf o werth a datblygu golwg fwy integredig ar berfformiad gwasanaethau cyhoeddus

3. Gwneud yn siŵr bod ein gwaith yn hawdd i'w ddeall.

Byddwn yn:

- Adolygu ein harddull adrodd i sicrhau bod ein hadroddiadau arolygu yn rhoi'r wybodaeth i bobl sydd ei hangen arnynt yn y ffordd sydd ei hangen arnynt
- Ystyried ffyrdd arloesol eraill o hysbysu pobl am ein gwaith



2. Cymryd camau pan na fydd safonau yn cael eu bodloni

Rydym yn darparu sicrwydd ynghylch ansawdd ac effeithiolrwydd gwasanaethau'r GIG trwy ein rhaglen o arolygiadau a gweithgareddau adolygu. Fel y rheoleiddiwr o ofal iechyd annibynnol yng Nghymru, rydym yn cofrestru, yn arolygu a, phan fo angen, yn cymryd camau i sicrhau diogelwch ac ansawdd y gofal a ddarperir i bobl.

Y camau y byddwn yn eu cymryd:

1. Monitro ein dull o gynnal arolygiadau ac adolygiadau i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn effeithiol.

Byddwn yn:

- Cynnal adolygiad o'n cyfrifoldebau statudol/ rheoleiddio ac yn nodi cynigion ar gyfer newidiadau i gylchoedd arolygu yn seiliedig ar risg a fforddiadwyedd
- Adolygu ein dull o arolygu'r GIG, gan ddatblygu cynigion i weithio ar sail fwy thematig, gan ystyried teithiau cleifion drwy'r system iechyd a gofal efallai, gan gynnwys gwasanaethau cymunedol ac ataliol
- Gwneud mwy i ystyried yn rhagweithiol llesiant ac ymgysylltiad staff yn y gwasanaethau yr ydym yn eu harolygu
- Adolygu a gwella'r ffordd yr ydym yn gwneud gwaith dilynol ar yr argymhellion yr ydym yn eu gwneud
- Gwella'r ffordd yr ydym yn hysbysu'r cyhoedd os oes gwelliannau wedi eu gwneud a phryd
- Gwella'r ffordd yr ydym yn hysbysu'r cyhoedd am y camau yr ydym yn eu cymryd pan na fydd safonau yn cael eu bodloni
- Ystyried y cwmpas ar gyfer fframwaith sgoriau ar gyfer gofal iechyd annibynnol

2. Gwella ein cyfathrebiad â darparwyr cyfredol a darpar ddarparwyr gofal iechyd annibynnol.

Byddwn yn:

- Adolygu ein gwefan i sicrhau ei bod yn darparu gwybodaeth eglur i ddarpar gofrestrwyr ar yr hyn yr ydym yn ei ddisgwyl ganddynt
- Cynnal digwyddiadau a chyfarfodydd darparwyr rheolaidd
- Datblygu cylchlythyr darparwyr

3. Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i adolygu cwmpas a chymhwysiad y pwerau cyfreithiol sydd ar gael i AGIC.

Byddwn yn:

- Adolygu effaith pwerau cyfredol AGIC ar gleifion
- Ystyried a oes angen deddfwriaeth newydd i addasu amrywiaeth a natur ein cyfrifoldebau ac i gryfhau ein pwerau, gan ei gwneud yn haws dwyn darparwyr i gyfrif



3. Bod yn fwy amlwg

Ein nod yw annog gwelliant yn y gwasanaethau yr ydym oll yn eu derbyn fel bod ein gwasanaeth iechyd a gofal cystal ag y gall fod.

Mae adborth cleifion yn ganolog i'n gwaith casglu gwybodaeth. Byddwn yn cynyddu ein hymgysylltiad â'r cyhoedd felly, fel y gall pobl ein hysbysu am eu profiadau ac y gallwn esbonio ein canfyddiadau. Byddwn yn gwneud mwy i godi ein proffil ymhlith y cyhoedd i wella dealltwriaeth o swyddogaeth AGIC a'r gwaith yr ydym yn ei wneud.

Y camau y byddwn yn eu cymryd

1. Datblygu a gwella'r ffordd yr ydym yn gwrandao ar y cyhoedd.

Byddwn yn:

- Cynyddu'r amrywiaeth o ddulliau yr ydym yn eu defnyddio i wrando ar brofiadau cleifion a'u teuluoedd
- Archwilio'r opsiynau i bobl roi eu safbwyntiau i ni, gan gynnwys defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf
- Gweithio gyda sefydliadau eraill, yn y trydydd sector yn arbennig, i ddatblygu ffyrdd i grwpiau o bobl ddweud wrthym am eu profiadau

2. Gwella'r ffordd yr ydym yn hysbysu pobl am yr hyn yr ydym yn ei wneud.

Byddwn yn:

- Datblygu ein presenoldeb ar-lein ymhellach, gan gynnwys cyfryngau digidol a chymdeithasol
- Cyhoeddi adroddiad blynyddol mewn arddull newydd sy'n gwneud defnydd cynyddol o'r dechnoleg ddiweddaraf
- Cynnal cyfres o ddigwyddiadau dysgu ar

gyfer rhanddeiliaid a phartneriaid unwaith y bydd adroddiadau thematig wedi cael eu cyhoeddi, gan gynnwys lansiad ffurfiol ar gyfer cyhoeddiadau ac adroddiadau dethol, e.e. adolygiadau thematig o'r GIG

3. Datblygu'r ffordd yr ydym yn cynnwys pobl yn ein gwaith.

Byddwn yn:

- Profi ffyrdd newydd o ymgysylltu â chleifion a'r cyhoedd yn ystod ein harolygiadau neu adolygiadau
- Datblygu ymhellach y ffyrdd yr ydym yn defnyddio'r cyhoedd i gasglu gwybodaeth am brofiad y claf yn ystod ein harolygiadau ac adolygiadau
- Ystyried sut i wella'r defnydd o'n panel o adolygwyr cymheiriaid a lleyg, trwy gynnwys meddygon mwy mewn timau arolygu ysbytai, er enghraifft
- Ymgysylltu â'r cyhoedd i adolygu llwyddiant y strategaeth dair blynedd hon ac i baratoi ar gyfer y blynyddoedd i ddod

4. Datblygu ein pobl a'n sefydliad i wneud y gwaith gorau posibl

Byddwn yn gwella'r ffordd yr ydym yn gweithio fel ein bod yn gyson effeithiol ac effeithlon.

Rydym wedi ymrwymo i gydraddoldeb ac rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth ein gweithlu. Byddwn yn parhau i wella ein dull o ddatblygu a chynorthwyo pawb sy'n gweithio i AGIC, fel y gallant wneud y gwaith gorau posibl er budd cleifion a'r cyhoedd.

Y camau y byddwn yn eu cymryd

1. Rhoi rhaglen newid ar waith i wella ffyrdd AGIC o weithio.

Byddwn yn:

- Datblygu atebion TGCh gwell i symleiddio'r gwaith o gynllunio, darparu a monitro arolygiadau ac adolygiadau
- Rhoi prosesau busnes newydd ar waith
- Datblygu proses ddi-bapur ar-lein ar gyfer cofrestriadau a thaliadau
- Adolygu ein trefniadau cynllunio blynyddol i gyd-fynd â chylchoedd arolygu rheoleiddio newydd ac unrhyw newidiadau i ddulliau arolygu'r GIG
- Adolygu dulliau cyfredol o reoli ansawdd a sicrhau ansawdd a gwneud gwelliannau ar unwaith pan fo'n bosibl
- Adolygu swyddogaeth a gweithrediad rheolwyr perthynas AGIC²

² Mae gan AGIC reolwyr perthynas ar gyfer pob bwrdd iechyd ac ar gyfer gofal iechyd annibynnol. Swyddogaeth rheolwr perthynas yw datblygu dealltwriaeth drylwyr o'r bwrdd iechyd neu wasanaeth ac i gyfrannu'r wybodaeth hon at waith cynllunio a deallusrwydd AGIC. Rheolwr perthynas yw'r prif bwynt cyswllt i'r bwrdd iechyd gydag AGIC.

2. Buddsoddi mewn datblygu sgiliau a gwybodaeth ein pobl.

Byddwn yn:

- Datblygu a gwella ymhellach y cyfleoedd dysgu a datblygu i bawb sy'n gweithio i ni neu gyda ni, staff ac adolygwyr
- Datblygu rhaglen hyfforddi lawn ar gyfer rheolwyr perthynas AGIC
- Datblygu strategaeth dysgu a datblygu newydd ar gyfer AGIC

3. Datblygu strategaeth weithlu sy'n cynnwys ystyriaeth o gynllunio olyniaeth a llwybrau gyrfaol.

Byddwn yn:

- Gwerthuso'r broses recriwtio ar gyfer adolygwyr cymheiriaid a lleyg
- Gweithredu system adborth i adolygwyr cymheiriaid, gan gynnwys gwerthusiad gan arweinydd clinigol ar gyfer AGIC
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu llwybrau gyrfaol penodol i AGIC
- Sicrhau bod strwythur AGIC yn esblygu gyda'r heriau a nodir yn y strategaeth hon



Yr hyn y mae'r strategaeth hon yn ei olygu...

Bydd pobl yn sylwi newidiadau o ganlyniad i'r gwaith yr ydym yn ei wneud drwy'r strategaeth hon.

Byddwn yn gweithio'n agos gyda gwasanaethau, ein partneriaid a'r cyhoedd i ddatblygu ein cynlluniau manwl, gan adeiladu ar y fframwaith y mae'r strategaeth hon yn ei ddarparu. Bydd ein cynlluniau busnes blynyddol yn nodi pa gamau y byddwn yn eu cymryd yn ystod pob blwyddyn i wireddu ein huchelgais.

Byddwn yn mesur ein cynnydd yn erbyn ein blaenoriaethau strategol

I'r cyhoedd

- Bydd gan bobl fwy o wybodaeth am ein gwaith, a fydd yn haws ei deall
- Bydd gwybodaeth o arolygiadau ac adolygiadau ar gael mewn gwahanol ffyrdd, gyda mwy o ddefnydd o gyfryngau cymdeithasol ac adroddiadau sy'n haws eu darllen
- Bydd cyfathrebu am gamau yr ydym wedi eu cymryd pan na fydd gwasanaethau wedi bodloni safonau gofynnol yn well
- Bydd gan bobl fwy o gyfleoedd i gyfrannu at ein gwaith

I wasanaethau

- Bydd cyfathrebu gan AGIC yn fwy eglur
- Bydd yn haws i wasanaethau gyfathrebu ag AGIC gyda mwy o opsiynau electronig
- Bydd gwasanaethau gofal integredig yn arwain at fwy o arolygu ar y cyd gan AGC ac AGIC

I'n partneriaid

- Bydd gwaith rhannu a dadansoddi gwybodaeth yn cael ei wella
- Bydd mwy o gyfle i rannu arfer da a dysgu o waith AGIC

I'n pobl

- Bydd cyfleoedd hyfforddi gwell, mwy perthnasol
- Bydd llwybrau gyrfaol cydnabyddedig
- Bydd TGCh a dulliau gwell i wneud y gwaith yn effeithlon ac yn effeithiol

Cyfeiriadau

1. Adroddiad Terfynol yr Adolygiad Seneddol - Chwyldro o'r tu mewn: Trawsnewid iechyd a gofal yng Nghymru
2. Mae gan AGIC reolwyr perthynas ar gyfer pob bwrdd iechyd ac ar gyfer gofal iechyd annibynnol. Rôl rheolwr perthynas yw datblygu dealltwriaeth drwyadl o'r bwrdd iechyd neu'r gwasanaeth a bwydo'r wybodaeth hon i AGIC a gwaith cynllunio AGIC. Rheolwr perthynas yw prif bwynt cyswllt y bwrdd iechyd yn AGIC





aglc
hiw

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

www.agic.org.uk

agic
hiw | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales